# Cynllunio wrth Gefn:
# Cwestiynau ac Atebion

Yn unol â Rheoliadau Cyffredinol y CGC (yn Gymraeg ar wefan CBAC), rhaid i ganolfannau gael cynllun wrth gefn ysgrifenedig ar waith sy'n gyfredol. Rhaid i hwn gynnwys safle arall neu safleoedd eraill y gellir eu defnyddio os na ellir cynnal arholiadau yn y cyfeiriad cofrestredig.

Dylai canolfannau roi eu trefniadau wrth gefn ar waith yn y lle cyntaf, ond gellir ystyried y pwyntiau canlynol hefyd os bydd e.e. tywydd difrifol.

**1. (a) Os yw ein canolfan ar gau oherwydd, er enghraifft, amodau tywydd gwael, a allwn ni wneud trefniadau eraill i ymgeiswyr arholiadau sefyll eu harholiadau mewn canolfannau sy'n haws iddyn nhw eu cyrraedd?**

Gallwch. Mae'n dderbyniol defnyddio lleoliadau eraill, cyhyd â bod eich trefniadau â'r ganolfan arall yn sicrhau bod arholiadau'n cael eu cynnal yn briodol ar gyfer yr ymgeiswyr dan sylw.

**(b) Dan amgylchiadau o'r fath, a allwn ni wneud trefniadau eraill i ymgeiswyr sefyll eu harholiadau mewn safleoedd nad ydynt fel arfer yn ganolfannau arholiadau (e.e. canolfannau hamdden / neuaddau cymunedol)?**

Gallwch. Mae'n dderbyniol defnyddio lleoliadau eraill o'r fath, cyhyd â'ch bod yn gallu sicrhau bod yr arholiadau'n cael eu cynnal yn briodol ar gyfer yr ymgeiswyr dan sylw.

**2. Os yw ein canolfan ar gau pan fydd arholiadau wedi'u hamserlennu, ac nad ydym wedi gallu gwneud trefniadau eraill, neu fod ein canolfan ar agor ond nad yw rhai ymgeiswyr yn gallu ei chyrraedd oherwydd, er enghraifft, amodau teithio anodd neu beryglus, beth dylem ei wneud?**

Os oes gennych ymgeiswyr nad ydynt yn gallu sefyll yr arholiad a'u bod wedi'u cofrestru ar gyfer unedau arholiad nad ydynt yn derfynol sydd ar gael mewn cyfresi arholiadau dilynol, dylech chi eu cofrestru nhw ar gyfer y gyfres nesaf sydd ar gael.

Lle mae ymgeiswyr o'r fath wedi'u cofrestru ar gyfer arholiadau terfynol, gellir gwneud ceisiadau am Ystyriaeth Arbennig, cyhyd â bod y gofynion sylfaenol wedi'u bodloni (edrychwch ar y meini prawf sydd wedi'u cyhoeddi yn nogfen y CGC 'Canllaw i'r Broses Ystyriaeth Arbennig' (yn Gymraeg ar wefan CBAC)).

Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni cyfyngedig drwy warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)

Gall Swyddogion Arholiadau wneud cais am Ystyriaeth Arbennig o'r fath, gan ddefnyddio'r system ar-lein berthnasol, sydd i'w chael ar safle Porth CBAC.

**3. Os oes gennyf ymholiadau pellach am drefniadau arholiadau, gyda phwy ddylwn i gysylltu?**

Cysylltwch â'r adran TGAU ar tgau@cbac.co.uk, yr adran TAG ar tag@cbac.co.uk neu'r adran Llwybrau ar llwybrau@cbac.co.uk.

**4. Os oes gennyf ymholiadau am y dulliau cofrestru, gyda phwy ddylwn i gysylltu?**

Cysylltwch â'r adran Cofrestriadau ar cofrestriadau@cbac.co.uk.

**5. Rydym yn cynnal ein harholiadau ond mae gen i ofn y bydd ymgeiswyr yn hwyr. Beth yw'r trefniadau os bydd hyn yn digwydd?**

Dilynwch y weithdrefn cyrraedd yn hwyr safonol os bydd hyn yn digwydd – edrychwch ar adran 21 'Ymgeiswyr sy'n Cyrraedd yn Hwyr' yn nogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau (yn Gymraeg ar wefan CBAC).

Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni cyfyngedig drwy warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)